



DIOGELU DATA A PHREIFATRWYDD

Polisi Preifatrwydd

Mae'r Polisi hwn yn olrhain ein harferion casglu a phrosesu data mewn perthynas â defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Hwyrach y byddwn yn newid y Polisi hwn o dro i dro, felly dewch nôl i gymryd cip ar y dudalen hon yn achlysurol i sicrhau eich bod yn fodlon gydag unrhyw newidiadau. Trwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn cytuno i ymrwymo i'r Polisi hwn.

Er mwyn cyflenwi cymorth i Ofalwyr ar ran Creduni yn Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr, Gofalwyr Ceredigion a Gofalwyr Ifainc WCD, mae'n angenrheidiol inni gasglu, coladu a phrosesu data am Ofalwyr, Gofalwyr Ifainc, Gweithwyr, Gwirfoddolwyr ac unigolion eraill.

Fel Rheolydd Data, rydym yn penderfynu'r diben a'r dulliau i brosesu gwybodaeth, ac yn sicrhau bod gennym weithdrefnau i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol a/neu sensitif rydym yn ei thrin. Rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (www.ico.org.uk)

Rydym hefyd yn Brosesydd Data ar gyfer Cyngor Sir Powys (Creduni yn Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr), Cyngor Sir Ceredigion (Creduni yn Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr) a Chynghorau Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy (Gofalwyr Ifainc WCD).

Wrth ichi gofrestru gyda ni neu wneud cais am wybodaeth neu gymorth, rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch. Hefyd weithiau, byddwn yn casglu gwybodaeth a roddir inni gennych wrth ichi lenwi arolygon, ar ffurflenni archebu a ffurflenni cais, wrth roi adborth a chymryd rhan mewn cystadlaethau o'ch gwirfodd.

Rydych yn rhannu'ch manylion personol gyda ni o'ch gwirfodd; fodd bynnag, heb roi eich data personol inni, hwyrach na fyddwch yn gallu (fel sy'n briodol) derbyn cymorth, newyddion a diweddariadau, gwneud cyfraniad, gwneud cais am swydd gyda ni neu wneud cais i wirfoddoli gyda ni, neu gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a materion llywodraethu. Ein gobaith yw y bydd gennych ffydd ynom i ofalu am eich gwybodaeth - er mwyn inni gadw mewn cysylltiad!

Cesglir rhywfaint o wybodaeth yn awtomatig wrth ichi ymweld â'n gwefan. Er enghraifft gellir cofnodi'n awtomatig system gweithredu'ch cyfrifiadur, eich cyfeiriad IP, amseroedd ymweld, y math o borwr ac iaith, a/neu safle gwreiddiol eich chwiliad. Does dim cysylltiad rhwng yr wybodaeth yma a'ch gwybodaeth bersonol.

Pwy ydym ni:

Manylion Cyswilt:

Credu yn Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr Cyf
(Rhif Cwmni Cofrestredig: 4779458),

Marlow

South Crescent

Llandrindod

Powys

LD1 5DH

Cofrestrwyd enwau Credu; Gofalwyr Ifainc Powys a Gofalwyr Ifainc WCD oll gyda'r
Comisiwn Elusennau; Rhif Elusen Gofrestredig: 1103712

E-bost: carers@credu.cymru

Rhif ffôn: 01597 823800

Pam bod angen inni brosesu eich data personol

Er mwyn cyflenwi amrediad o wasanaethau i Ofalwyr ym Mhowys, Ceredigion,
Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych megis:

- gwybodaeth, cyngor, cymorth a gweithgareddau i Ofalwyr
- cadw ein cyfrifon a'n cofnodion gan gynnwys prosesu rhoddion a grantiau
- cefnogi a rheoli ein gweithwyr a gwirfoddolwyr
- hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir gan Credu yn Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr a Gofalwyr Ifainc WCD
- cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- cynnal arolygon a gwaith ymchwil

Mae angen inni ddefnyddio a chael mynediad at wybodaeth bersonol am Ofalwyr, y bobl maent yn gofalu amdanynt, Rhieni/Gwarcheidwaid, staff, gwirfoddolwyr ac amrediad o sefydliadau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Gall yr wybodaeth fod yn sensitif ei natur, felly mae gennym weithdrefnau i'w diogelu a sicrhau:

- ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth ag sydd ei angen yn unig, a dim manylion pellach
- fod yr wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol
- y defnyddir yr wybodaeth ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn unig
- ein bod yn cadw'r wybodaeth am y cyfnod sydd ei angen yn unig

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd parti at ddibenion marchnata, nac yn defnyddio data personol mewn ffordd a all achosi anfantais ddiangen.

Er hynny, mae rhai amgylchiadau lle mae gofyn cyfreithiol inni ddatgelu gwybodaeth:

- datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- at ddibenion canfod/atal twyll
- archwilio/gweinyddu cronfeydd cyhoeddus ac elusennol

Mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu gennym ni yn y DU. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn rhoi gwybod i chi yn ein 'Rhybuddion Preifatrwydd' am unrhyw achosion lle nad dyma fydd yr achos.

Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth lle y bydd gofyn gwneud hynny, megis lle bydd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno ar y cyd gyda sefydliadau eraill. Fe fyddwn yn dweud wrthyich chi pwy yw'r sefydliadau eraill hynny pan fyddwn yn casglu eich gwybodaeth.

Pa fath o ddata personol ydym ni'n ei drin?

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau, efallai y byddwn yn casglu, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol
- Teulu a manylion am eich rôl gofalu
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Anghenion tai
- Delweddau gweledol
- Gwybodaeth ffeil achos
- Manylion iechyd corfforol neu feddyliol
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg

Byddwn ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gynhelir ar gyfrifiadur neu ei systemau, neu mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau.

Ar gyfer pwy y caiff gwybodaeth ei phrosesu

Er mwyn cynnal y dibenion a ddisgrifir uchod o ran pam rydym yn prosesu eich data personol, efallai y byddwn yn casglu, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Gofalwyr a Gofalwyr Ifainc a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt
- Cyflenwyr
- Staff, unigolion dan gontract i ddarparu gwasanaeth
- Gwirfoddolwyr
- Ymddiriedolwyr ac Aelodau
- Unigolion sy'n Codi Arian a Chefnogwyr
- Achwynwyr, ymholwyr neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

O le rydym ni'n cael data personol?

Er mwyn cynnal y dibenion a ddisgrifir uchod, efallai y byddwn yn casglu data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Unigolion eu hunain
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant
- Cyflenwyr a darparwyr nwyddau neu wasanaethau
- Unigolion sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn
- Ymgynghorwyr Meddygol a Meddygon Teulu
- Llywodraeth leol
- Gwybodaeth sydd ar gael yn agored ar y rhynggrwyd

Rhannu eich gwybodaeth bersonol

Fel rhan o'n Gwaith ar ran Cynghorau Sir Powys, Ceredigion, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am Ofalwyr a Gofalwyr Ifainc gyda hwy fel 'tasg gyhoeddus' fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y 'Gofrestr Gofalwyr' hon yn cynnwys

- Manylion cyswllt Gofalwyr
- Dyddiad geni
- Y berthynas â'r unigolyn sy'n derbyn gofal
- Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth yr unigolyn sy'n derbyn gofal
- Unrhyw 'Asesiad Gofalwyr/Gofalwyr Ifanc' a gynhelir ar ran yr Awdurdod Lleol

Efallai y byddwn yn awgrymu sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai eich cefnogi chi, ond dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth ymlaen at y rhain, oni bai y gall rhywun fod mewn perygl.

Lle y rhennir gwybodaeth gyda sefydliadau eraill neu ei phrosesu ar ein rhan, fe fyddwn yn sicrhau fod diogelwch digonol trwy sicrhau fod contractau a chytundebau rhannu ar waith. Bydd y rhain yn diffinio isafswm y data i'w rannu, sut mae eich gwybodaeth i gael ei defnyddio ac fe fyddant yn gorfodi rheoliadau diogelwch i amddiffyn eich gwybodaeth.

Mae gofyn i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n trin gwybodaeth bersonol i gyflawni hyfforddiant perthnasol er mwyn sicrhau fod data personol yn cael ei brosesu yn unol ag egwyddor y ddeddfwriaeth diogelu data.

Pa mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth am y cyfnod isaf sy'n angenrheidiol. Wedi'r amser hwn, bydd y wybodaeth yn cael ei dileu/dinistrio yn unol â chofrestrau cadw cymeradwy'r cyngor. Gweler ein 'cofrestr gadw' sy'n esbonio pa mor hir rydym yn cadw gwybodaeth.

Cofrestr Gadw

Eich hawliau

Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun – rydych yn gallu gwneud cais i weld a derbyn copi o wybodaeth amdanoch chi a ddefnyddir gennym ni. Mae hyn yn cynnwys pam fod y wybodaeth yn cael ei chadw a pha fath o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r wybodaeth honno.

I wneud y cais hwn, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at carers@credu.cymru neu ffonio 01597 823800

Hawl i gael gwybod – mae gennych yr hawl i wybodaeth yn cael ei chyflenwi sy'n esbonio sut a pham rydym yn defnyddio eich gwybodaeth. Rhybuddion Preifatrwydd yw'r enw am y rhybuddion hyn.

Yr Hawl i Gywiro – mae gennych yr hawl i gael gwybodaeth bersonol wedi'i chywiro neu gwblhau os ydych yn teimlo ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn.

Yr Hawl i gael eich Anghofio – mae gennych yr hawl i wneud cais bod gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn cael ei dileu lle nad oes gennym reswm cymhellol i barhau i'w defnyddio.

Yr hawl i rwystro neu gyfyngu – rydych yn gallu gofyn ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol am resymau penodol ac mewn ffyrdd neilltuol.

Yr hawl i drosglwyddo – Gan ddibynnu ar y rhesymau a'r ffyrdd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth efallai y bydd gennych yr hawl i gael ac aildefnyddio eich gwybodaeth, i symud eich gwybodaeth o un system TG i system arall. Bydd hyn ond yn berthnasol gyda gwybodaeth a roddwyd gennych chi i ni, eich bod wedi rhoi caniatâd i ni ei defnyddio, neu ein bod yn ei defnyddio oherwydd contract, a bod y defnydd o'r wybodaeth yn cael ei gynnal gan gyfrifiadur.

Yr Hawl i wrthwynebu – rydych yn gallu gwrthwynebu ein defnydd o'ch gwybodaeth mewn rhai achosion, megis marchnata uniongyrchol.

Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio gan gynnwys proffilio – lle'r ydych yn gallu gofyn am ymyrraeth ddynol yn y broses gwneud penderfyniadau.

Sut i wneud ymholiad neu gyflwyno cwyn

Gan ddibynnu ar pam rydym angen prosesu eich gwybodaeth, fe fydd gennych hawliau penodol o ran sut y caiff ei defnyddio. Bydd manylion am y rhain yn y Rhybuddion Preifatrwydd a ddarperir.

Mae gennym sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau. Mae gennych yr hawl i ofyn ein bod yn peidio neu'n cyfyngu ar ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol o ran unrhyw wasanaeth. Fodd bynnag, gall hyn achosi oedi neu ein hatal rhag cyflwyno gwasanaeth i chi. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fe fyddwn yn ceisio cydymffurfio â gofynion o'r fath ond efallai na fydd hyn yn bosibl lle y bydd gofyn i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu lle mae perygl o niwed.

Dewch i gysylltiad os hoffech:

- Gyflwyno eich gwybodaeth. Cyflwynwch gais (Cais Mynediad at Ddata gan y Testun)
- Dilysu, cywiro neu ddiweddarau eich gwybodaeth
- Deall sut yr ydym wedi dod i benderfyniad amdanoch chi
- Os oes gennych bryder, cwyn, gwrthwynebiad neu gais i gyfyngu ar sut rydym yn prosesu eich data
- Fe fyddwn yn ymdrechu i ymateb i'r holl ymholiadau o fewn 28 diwrnod o'u cyflwyno.

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Nid oes gofyn i ni gael 'Swyddog Diogelu Data' yn unol â'r gyfraith ond mae ein Prif Swyddog Gweinyddol yn gyfrifol am Ddiogelu Data. Gallwch gysylltu am Ddiogelu Data trwy anfon e-bost at carers@credu.cymru, ffonio 01597 823800 neu ysgrifennu at sylw'r Prif Swyddog Gweinyddol, Marlow, South Crescent, Llandrindod.
LD1 5DH

Am gyngor annibynnol ar faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar www.ico.org.uk

Diogelu eich data personol?

Mae Credu yn cymryd diogelwch yr holl ddata personol dan ein rheolaeth yn ddifrifol iawn. Fe fyddwn yn sicrhau fod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol priodol ar waith i ddiogelu ein systemau gwybodaeth electronig ac ar bapur rhag colli a chamddefnyddio data, a dim ond yn caniatáu mynediad iddynt lle mae rheswm cyfreithlon dros wneud hynny.

Gwybodaeth ar sut rydym yn defnyddio cwcis

Pan fyddwch yn defnyddio'r wefan hon, bydd ychydig o ddata (cwcis) yn cael ei storio ar eich cyfrifiadur.

Mae'r cwcis hyn yn hanfodol i ni er mwyn darparu gwasanaeth gwe da i chi. Ni ddefnyddir unrhyw gwcis at ddibenion marchnata, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei storio (ac ni roddir mynediad) yn ein cwcis. Eu hunig ddiben yw helpu ein safle i weithio.

Rydym yn eu defnyddio ar y wefan hon i wella gwasanaethau ar eich cyfer chi, er enghraifft:

- gwneud yn siŵr fod eich dyfais yn cael ei adnabod fel nad oes rhaid i chi roi'r un wybodaeth sawl gwaith yn ystod un dasg
- mesur faint o bobl sy'n defnyddio ein gwefan, fel y gallwn sicrhau y gallwn ddiwallu'r galw
- deall sut mae pobl yn cael mynediad at y wybodaeth ar ein safle trwy beiriannau chwilio, fel y gallwn ei deilwra i wneud y wybodaeth yn haws i'w chanfod.

Cwcis ar wefan www.credu.cymru gan gwmnïau eraill a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol

Yn ystod eich ymweliad â'r safle, efallai y byddwch yn sylwi ar rai cwcis nad ydynt yn gysylltiedig â www.credu.cymru. Mae hyn yn digwydd pan fyddwch yn ymweld â thudalen gyda chynnwys wedi'i sefydlu gan drydydd parti (er enghraifft, fideos YouTube) neu eich bod yn defnyddio rhai o'r dolenni i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Gall y gwefannau hyn osod cwcis ar eich cyfrifiadur.

Nid yw Credu yn rheoli sut mae trydydd parti yn defnyddio eu cwcis. Dylech wirio polisiau preifatrwydd gwefannau trydydd parti am ragor o wybodaeth am eu cwcis os ydych yn pryderu am hyn.

Mae Credu yn argymhell yn gryf nad ydych yn rhwystro unrhyw gwcis o wefannau credu.cymru, gan fod angen y rhain er mwyn i'n safle weithio'n dda i chi.

Gwefannau eraill

Mae ein gwefan yn cynnwys dolenni i wefannau eraill. Mae'r polisi preifatrwydd hwn ond yn berthnasol i'r wefan hon felly pan fyddwch yn cysylltu â gwefannau eraill dylech ddarllen eu polisiau preifatrwydd eu hunain.

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Rydym yn cadw ein polisi preifatrwydd dan arolwg rheolaidd ac fe fyddwn yn gosod unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 18 Medi 2023.